
Cyngor Sir Ddinbych
Cynllun Datblygu Lleol 2006 - 2021

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2017

**Cyhoeddwyd 31 Hydref 2018**



**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cynllunio Strategol a Thai**
**Blwch Post 62**
**Rhuthun**
**LL15 9AZ**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

DRAFFT

Cafodd yr adroddiad hwn ei awdurdodi gan Emlyn Jones (Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd yng Nghyngor Sir Ddinbych).

Dinbych, XX.XX.2018


# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Crynodeb | 5 |
| 2. | Cyflwyniad | 5 |
| 3. | Adroddiad Adolygu CDLl Drafft | 6 |
| 4. | Perfformiad Polisi Lleol ac Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd | 8 |

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Polisi Lleol – Tabl Monitro |
| Atodiad 2 | Amcanion SA – Tabl Monitro |
| Atodiad 3 | Amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych |


DRAFFT

Ffigur 1: Sir Ddinbych, Gogledd Cymru



## 1. Crynodeb

1.1 Dyma'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol i Gyngor Sir Ddinbych ei baratoi ac mae'n ategu Adroddiad Adolygu'r CDLl (Rhagfyr 2017) gyda ffigyrau a gwybodaeth am effeithiolrwydd polisi lleol rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

1.2 Mae meysydd pynciau a nodwyd yn flaenorol, fel Strategaeth Dwf y CDLl ac, o ganlyniad, yr angen a ragwelir am anheddau newydd, yn dal yn bryder i'r Cyngor. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ddarparu tai fforddiadwy a ffigwr cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai o lai na 5 mlynedd (Gweler Argraffiad 9 Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 9.2.3). Er nad yw'r ffactorau hyn efallai'n effeithio ar gymunedau lleol yn y tymor byr, nid yw dirywiad canol trefi a chau cyfleusterau cymunedol ac iechyd lleol yn ganlyniad dymunol o safbwynt arfarnu cynaliadwyedd.

1.3 Wedi derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r Cytundeb Cyflawni a'r amserlen arfaethedig i lunio'r CDLl nesaf, gall y Cyngor ddefnyddio canfyddiadau pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol ac Adroddiad Adolygu'r CDLl wrth ddrafftio polisïau newydd. Bydd pob un ohonynt yn creu sail dystiolaeth i gyfiawnhau newidiadau awgrymedig i'r ddogfen fabwysiedig.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) ar 4 Mehefin 2013. Mae'n rhoi gweledigaeth glir ynghylch sut y gall datblygiadau gyfrannu at fynd i'r afael â materion allweddol yn y Sir, fel darparu tai ar gyfer anghenion lleol i ateb twf disgwyliedig y boblogaeth a ble fydd datblygiadau newydd dros gyfnod y CDLl a faint ohonynt fydd.

2.2 Mae monitro mewn cyd-destun yn darparu asesiad o effeithiolrwydd polisïau lleol i gyflawni Strategaeth ac Amcanion y CDLl er mwyn cefnogi Gweledigaeth y CDLl ynghylch sut y dylai Sir Ddinbych fod yn 2021. Mae hefyd yn helpu i bennu cyfleoedd neu heriau sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i newidiadau i bolisïau a strategaethau cenedlaethol, amodau economaidd-gymdeithasol a dogfennau corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych.

2.3 Mae dyletswydd ar y Cyngor i lunio Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl dan rwymedigaethau Adran 37 Rheoliadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rhaid cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru (LlC) erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, ac mae'n dystiolaeth allweddol wrth adolygu polisïau lleol a dyraniadau safleoedd ond gellir hefyd ei defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau dilynol.

2.4 Dyma'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol ac mae'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Ar wahân i effeithiolrwydd polisïau lleol, mae hefyd yn cyflwyno canlyniadau monitro Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd, fel maent wedi'u nodi yn fframwaith yr arfarniad.

2.5 Gan fod Adolygiad y CDLl a'r dogfennau ategol (gweler yr adran nesaf) wedi canolbwyntio ar berfformiad polisi lleol ond hefyd wedi craffu'n gynhwysfawr ar y dystiolaeth ategol, mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 wedi'i grynhoi i gyflwyno'r canfyddiadau diweddaraf ar gyfer y cyfnod monitro diwethaf.

## 3. Adroddiad Adolygu CDLl Drafft

3.1 Llunio'r Adroddiad Adolygu yw'r cam cyntaf tuag at ystyried diwygio, disodli neu ganslo unrhyw elfennau penodol yn y CDLl mabwysiedig. Mae'r ddogfen yn nodi pa rannau o'r Cynllun sydd wedi'u hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r hyn sydd angen newid a pham yn seiliedig ar dystiolaeth.

3.2 Cyflwynwyd Adroddiad Adolygu CDLl Sir Ddinbych i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Roedd yn cynnwys y brif ddogfen, pum Papur Gwybodaeth (= pum thema'r CDLl). Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu mis Rhagfyr 2017) ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad mis Ionawr 2017). Mae modd eu gweld ar wefan y Cyngor yn adran y Cynllun Datblygu Lleol.


3.3 Gan edrych ar ganlyniadau Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyhoeddwyd eisoes, mae Adroddiad Adolygu'r CDLl yn amlygu pedwar maes sydd angen sylw penodol:

1. *Tanberfformio o ran darparu tai ar y farchnad a thai fforddiadwy*

3.4 Mae Strategaeth y CDLl yn nodi manylion am faint a phrif gamau datblygiadau yn y dyfodol yn unol â'r strategaeth ofodol ar gyfer y Sir. Mae'r pynciau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n bennaf ym mholisi lleol BSC 1 'Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych', BSC 5 'Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan', BSC 6 'Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau' a dyraniadau tir fel y maent i'w gweld ar Fapiau Cynigion y CDLl. Mae Siart 1 yn dangos y tai sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn o gymharu â'r lefelau twf disgwyliedig ers dechrau cyfnod y Cynllun yn 2006.

DRAFT

3.5 Siart 1 Tai sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn o gymharu â lefelau twf a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ers 2006/2007




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2018)

2. *Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 1: cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd*

3.6 Mae Argraffiad 9 Polisi Cynllunio Cymru (Tachwedd 2016), paragraff 9.2.3 yn pwysleisio'r angen i awdurdod cynllunio lleol ddangos bod cyflenwad o dir ar gyfer tai am 5 mlynedd wirioneddol ar gael yn y Sir. Mae Nodyn Cyngor Technegol 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2015), paragraffau 2.4 a 3.4, yn amlygu'r angen am ystyried adolygu'r Cynllun pe na bai'r ffigwr cyflenwad yn cael ei fodloni.

3.7 Tabl 1 Cyflenwad Tir ar gyfer Tai am 5 mlynedd CSDd (2013 - 2018)

| Blwyddyn | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwad Tir ar gyfer Tai 5 mlynedd (Dull gweddilliol TAN 1) | 3.49 | 1.80 | 2.10 | 2.02 | 1.79 | 1.65 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2018)

3. *Mynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir*

3.8 Daeth asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd os daw'r asesiad o hyd i angen, yn statudol ofynnol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

3.9 Cymeradwywyd Adroddiad Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych 2017 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017, ac fe gasglodd bod angen safle preswyl a safle teithio neu fan stopio yng

ngogledd y Sir a than ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru), bod angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r angen hwn.

3.10 Ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru am yr asesiad o anghenion llety i Sipsiwn a Theithwyr, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at nodi safleoedd i gydymffurfio ag Argraffiad 9 Polisi Cynllunio Cymru (Tachwedd 2016), paragraff 9.2.21, a pholisi lleol BSC 10.

4. *Newidiadau i bolisi cenedlaethol a gofynion o ran rheoli gwastraff a mwynau*

3.11 Mae Polisi VOE 7 yn cynnwys dyraniadau sy'n seiliedig ar dir a gymerir sydd wedi'i nodi yn Adolygiad 1af y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol nad ydynt bellach yn berthnasol ac nid yw'n darparu meini prawf digonol er mwyn asesu cynigion ar gyfer rheoli gwastraff o fewn ffiniau datblygu. Er na ddylid ailadrodd polisi cenedlaethol, byddai o fudd nodi meini prawf sy'n dangos sut yr ymdrinnir â materion fel angen, yr hierarchaeth wastraff ac effeithiau ar amwynder. Mae Polisi VOE 8 yn cydnabod na ellir lleoli pob datblygiad gwastraff o fewn ystadau diwydiannol sydd wedi'u dyrannu a rhai presennol. Fodd bynnag, mae geiriad y polisi'n cyfyngu'n ormodol ac mae'n dibynnu ar y Cynllun Gwastraff i ddynodi angen, sydd bellach yn amherthnasol.

3.12 Mae Pennod 14 ym Mholisi Cynllunio Cymru'n nodi dulliau i'w defnyddio i egluro ble y dylid cloddio am fwynau neu ble mae hynny fwyaf tebygol o ddigwydd. Roedd Polisi PSE17: Echdynnu Mwynau yn y Dyfodol yn nodi 'Ardaloedd a Ffefrir' lle byddai ceisiadau i echdynnu hyd at 1 miliwn tunnell o dywod a gro'n cael eu cefnogi. Mae'r broses fonitro flynyddol yn cynnwys y triger 'Dim caniatâd i echdynnu erbyn 2017'. Nid oes unrhyw gais am ganiatâd echdynnu mwynau wedi'i gyflwyno hyd yma ac nid oes unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio wedi'u cynnal. Bydd angen mynd i'r afael â'r mater hwn drwy adolygu'r CDLl, yn ogystal â'r angen am fwy o gerrig mâl.

*Casgliad*

3.13 Mae Adroddiad Adolygu'r CDLl yn casglu ym mharagraff 8.3 yn y brif ddogfen bod y Cyngor am ddefnyddio'r weithdrefn lawn i adolygu Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Cyngor Sir Ddinbych 2006 – 2021 yn llawn. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar y Cytundeb Cyflawni ar 22 Mai 2018 a bydd yn llywio'r gwaith o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol sydd i ddod. Mae Atodiad 3 yn cynnwys copi o'r amserlen i gwblhau'r ddogfen.

## 4. Perfformiad Polisi Lleol ac Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd

4.1 Aseswyd polisi lleol ac Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn seiliedig ar wybodaeth ac ystadegau o nifer o ffynonellau. Roedd hyn

DRAFT

yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i: Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 Cyngor Sir Ddinbych (Mehefin 2018), cofnodion ceisiadau cynllunio a benderfynwyd yn ystod y cyfnod monitro, ystadegau cenedlaethol, arolygon maes a data a ddarparwyd gan adrannau eraill y Cyngor.

4.2 Wrth edrych ar asesu polisïau unigol, dylid cofio bod nifer o gyfyngiadau yn y fframwaith monitro ei hun. Bydd cadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof o fudd wrth lunio fframwaith monitro newydd ar gyfer y cynllun datblygu lleol sydd i ddod.

- Amserlenni penodedig ac amrywiaethau byrdymor o ran canlyniadau asesu: gallai gymryd peth amser i ddod o hyd i batrwm sy'n dod i'r amlwg;
- Dibynnu ar ddata neu wybodaeth sydd un ai'n cael eu casglu'n allanol neu nad ydynt bellach ar gael oherwydd bod llai o adnoddau;
- Gallai newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi cenedlaethol olygu y bydd canlyniad neu amcan polisi lleol yn ddibwys; a
- Penderfynir ar geisiadau cynllunio yn unol â nifer o bolisïau lleol ac ystyriaethau pwysig a allai o dro i dro orbwyso polisi penodol neu faen prawf polisi.

4.3 Er mwyn bod o gymorth ar gyfer monitro yn weledol, mae'r symbolau canlynol yn cael eu defnyddio i ddangos effeithiolrwydd polisi lleol:

| | |
|---|---|
| √ | Mae'r polisi lleol yn cyfrannu at gyflawni Amcanion y CDLl ac yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau |
| O | Efallai nad yw'r polisi lleol yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau ond nid yw wedi cyrraedd y trothwy angenrheidiol i ystyried ymyrryd |
| X | Nid yw'r polisi lleol yn arwain at y canlyniad disgwyliedig. |

4.4 Mae Atodiad 1 a Tabl 2 yn nodi polisïau lleol nad ydynt yn arwain at y canlyniad disgwyliedig. Maent eisoes wedi'u nodi fel meysydd pryder mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ac, felly, cawsant eu rhestru yn Adroddiad Adolygu'r CDLl fel polisïau lleol yr oedd angen eu hadolygu.

DRAFT

4.5 Tabl 2 Polisïau lleol nad ydynt mor effeithiol â'r disgwyl

| Polisi Lleol | Sylwadau |
|---|---|
| BSC 1 – Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych<br>BSC 4 – Tai Fforddiadwy; BSC 8 - Safleoedd eithriadau gwledig; BSC 9 - Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain | Mae Strategaeth Dwf y CDLl ac, o ganlyniad, darparu tai fforddiadwy, yn methu am beidio â darparu digon o anheddau, fel y nodir yn Adroddiad Adolygu'r CDLl, Papur Gwybodaeth: Creu Cymunedau Cynaliadwy, a Siart 1 uchod. |
| BSC 10 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ddiwallu'r angen a nodwyd am safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr o fewn 18 mis ers i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr ar 28 Mawrth 2017. Fodd bynnag, mae gwaith cynhwysfawr yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen. |
| PSE 2 – Tir i ddibenion cyflogaeth | Mae faint o dir a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth wedi bod yn is na 3 hectar y flwyddyn am dair blynedd, ond rhaid nodi y daw'r galw am dir cyflogaeth newydd yn bennaf o safleoedd sy'n bod eisoes. |
| PSE 6 – Economi Manwerthu; PSE 8 – Datblygiad yng nghanol trefi; PSE 9 – Datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol | Mae'r trothwy adolygu'n gysylltiedig â chyfradd eiddo gwag o 15% neu uwch am 3 blynedd yn olynol yng nghanol unrhyw dref. Mae canol tref y Rhyl wedi bod dros 15% am y tair blynedd ddiwethaf. |
| PSE 17 – Echdynnu mwynau yn y dyfodol | Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw gais cynllunio i echdynnu tywod a mwynau erbyn 2017. |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2018)

DRAFT

4.6 Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio nifer o 'ddangosyddion craidd' y mae'n eu hystyried yn hanfodol i asesu'r modd y gweithredir polisi cenedlaethol. Maent yn dod o is-ddeddfwriaeth ac mae'n rhaid eu cynnwys ym mhob Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae Tabl 3 yn nodi eu hasesiad mewn perthynas â Sir Ddinbych.

4.7 Tabl 3 Asesiad Llywodraeth Cymru o ddangosyddion craidd

| Dangosydd Craidd | 2017/ 18 |
|---|---|
| Y cyflenwad o dir ar gyfer tai, a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai bresennol. Caiff hyn ei fesur yn ôl cyflenwad blynyddoedd. | 1.65 |
| Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol a marchnad gyffredinol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLl (h.y. drwy'r system gynllunio). Dylai hyn nodi nifer y tai newydd a adeiladwyd, llai unrhyw dai a ddymchwelwyd, yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. | *anheddau fforddiadwy* yn 2017/18: 11;<br>ers mabwysiadu'r CDLl: 756<br><br>*anheddau ar y farchnad* yn 2017/18: 196;<br>ers mabwysiadu'r CDLl: 2,440 |
| Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o gyfanswm y ddarpariaeth dai. | 97.9% |
| Tir ar gyfer cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth. | Rhoddwyd caniatâd i bob datblygiad cyflogaeth ar safleoedd a ddyrannwyd. |
| Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (metr sgwâr) a ganiateir y tu mewn i ffiniau canol trefi ac ardaloedd sefydledig a'r tu allan iddynt. | Datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr o fewn ffiniau canol tref: Dim.<br>Datblygiadau hamdden y tu hwnt i ffiniau canol tref: 8,403 metr sgwâr |
| Graddau'r agregau sylfaenol ar y tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau a fynegir fel canran o'r capasiti gofynnol fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN). | Dim. |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2018)

*Fframwaith Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd*

4.8 Datblygwyd fframwaith monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd (gweler Atodiad II) yn seiliedig ar gynlluniau a rhaglenni, data sylfaenol a chyfleoedd a phroblemau cynaliadwyedd a nodwyd eisoes. Mae wedi'i ffurfio o gyfres o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd, sef y nodau uchelgeisiol mae'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni drwy weithredu'r CDLl. Mae fframwaith monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei ddefnyddio i brofi perfformiad y CDLl ac mae'n amlygu cryfderau a gwendidau o ran sicrhau datblygiadau cynaliadwy.



DRAFT

4.9 O dro i dro, mae heriau wrth awgrymu camau neu strategaethau a allai wella'r perfformiad cyffredinol i gefnogi Amcanion unigol yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Er hynny, mae data a gwybodaeth sydd wedi'u casglu'n dystiolaeth allweddol i lunio'r CDLl nesaf. Mae meysydd unigol o fewn fframwaith monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael eu nodi â 'Data heb ei gasglu'. Darperir gwybodaeth arall lle bo modd.

DRAFFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan CDLl 1: Poblogaeth a Chymuned** | | | | | |
| BSC 1 – Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych | Diwallu anghenion tai'r Sir | Nifer o dai newydd sy'n cael caniatâd cynllunio; Nifer y cartrefi newydd a gwblheir bob blwyddyn | Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 500 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 2 a llai na 750 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 3 | X | Datblygu tai preswyl mewn camau drwy gydol oes y CDLl – Cymal 3 (2016/17 – 2020/21), rhagwelir y bydd yn cwblhau tua 730 o anheddau bob blwyddyn<br><br>Y nifer o dai a gwblhawyd yn 2017/18 oedd 196 (gweler Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018)<br><br>Y nifer o anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio yn 2017/18 oedd 238, ac eithrio caniatâd amlinellol<br><br>Y ffigwr cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd ar gyfer 2017/18: 1.65 mlynedd (gweler Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar Gyfer Tai 2018) |
| | Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai | --- | Llai na 5 mlynedd o gyflenwad tir tai | X | |
| BSC 2 – Blaenoriaeth datblygu tir llwyd | Cynyddu nifer y safleoedd tir llwyd sydd ar gael ar gyfer eu datblygu | Nifer caniatâd cynllunio datblygiad newydd ar | Gostyngiad islaw 60% ar gyfer tai a chyflogaeth (ac eithrio SSA Bodelwyddan) | O | Yn 2017/18, dim ond 33.60% o ddatblygiadau tai a chyflogaeth a godwyd ar dir llwyd. Mae hyn yn adlewyrchu prinder y tir llwyd sydd ar |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | safleoedd tir llwyd | | | gael yn y sir, a'r ganran uchel o dir a ddefnyddiwyd eisoes. |
| BSC 4 – Tai Fforddiadwy;<br>BSC 8 – Safleoedd eithriadau gwledig;<br>BSC 9 - Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain | Cynyddu nifer yr aneddiadau fforddiadwy newydd a adeiledir yn y Sir | Nifer aneddiadau fforddiadwy newydd a ganiateir bob blwyddyn;<br>Nifer aneddiadau fforddiadwy newydd a gwblheir bob blwyddyn | Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 165 o aneddiadau fforddiadwy a ganiateir bob blwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 2 a llai na 225 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 3 | X | Nifer yr anheddau fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio ac a gwblhawyd bob blwyddyn:<br><br>(wedi cael caniatâd cynllunio / wedi'u cwblhau bob blwyddyn)<br>2015/16 – 17 / 14 annedd;<br>2016/17 – 71 / 55 annedd;<br>2017/18 – 37 / 11 annedd; |
| BSC 10 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Diwallu anghenion sipsiwn a theithwyr | --- | Lle adnabyddir angen am safle parhaol a/neu safle pontio ar gyfer Sir Ddinbych yn Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd-orllewin Cymru (LHMA). Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyffiniol i gychwyn chwilio am safle. Adnabyddir safle addas a rhoddir caniatâd cynllunio o fewn 18 mis o dderbyn LHMA | X | Cadarnhawyd elfen yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn Asesiad y Farchnad Dai Leol gan y Cyngor ar 3 Rhagfyr 2013; heb nodi na chadarnhau unrhyw safle o fewn 18 mis.<br><br>I'w nodi: Cynhaliodd y Cyngor Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017 – gweler Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae gwaith cynhwysfawr yn cael ei wneud |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gogledd-orllewin Cymru, os bydd yn adnabod angen penodol | | ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen sydd wedi'i nodi. |

**Amcanion CDLl 2 a 3: Economi a Swyddi**

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 2 – Tir i ddibenion cyflogaeth | Ar gyfartaledd, 4 hectar o dir cyflogaeth yn cael eu defnyddio bob blwyddyn | Faint o dir cyflogaeth newydd, mewn hectarau, sy'n cael caniatâd cynllunio | Llai na 3 hectar y flwyddyn am 3 blynedd olynol | X | Tir cyflogaeth newydd a ddefnyddiwyd yn y tair blynedd ddiwethaf:<br>2015 / 2016: dim hectarau<br>2016 / 2017: 2.21 hectar<br>2017 / 2018: dim hectarau<br><br>Nodyn: Mae'r galw am dir cyflogaeth newydd yn dod yn bennaf o safleoedd presennol – defnydd cynaliadwy o adnoddau tir prin |
| PSE 1 – Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru; PSE 3 – Gwarchod tir ac adeiladau cyflogaeth | Gwarchod tir rhag defnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth | Faint o dir cyflogaeth, mewn hectarau, a gollir i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth | Mwy na 5% yn cael ei golli mewn gwrthdrawiad â Pholisi PSE 3 o gymharu â faint o dir cyflogaeth sydd ar gael, ym mlwyddyn mabwysiadu'r CDLl | √ | Bydd polisi lleol PSE 1 yn cael ei adolygu gan fod Llywodraeth Cymru wedi dwyn rhaglen 'Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru' i ben<br><br>Ni chollwyd unrhyw dir cyflogaeth i ddefnydd ar wahân i gyflogaeth yn 2017/2018 |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 5 – Economi Gwledig | Helpu cynnal yr economi gwledig | Lefelau diweithdra | Cynnydd mewn lefelau diweithdra mewn ardaloedd gwledig 5% uwchlaw lefelau 2011 | √ | Bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gwneud cais am lwfans ceisio gwaith yn Sir Ddinbych o 3.5% yn 2013 i 1.3% ym mis Ebrill 2018 (Ffynhonnell: NOMIS) |

## Amcan CDLl 4: Manwerthu

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 6 – Economi Manwerthu; PSE 9 – Datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol | Cyfeirio datblygiadau manwerthu newydd i ganol trefi presennol | Faint o le newydd mawr manwerthu, swyddfa a hamdden a ganiateir y tu allan i ganol trefi | Caniatáu 1 datblygiad mawr manwerthu, swyddfa a hamdden y tu allan i ganol trefi yn groes i bolisi'r CDLl | √ | Ni dderbyniodd unrhyw ddatblygiad manwerthu mawr y tu allan i ganol unrhyw dref ganiatâd yn groes i bolisi'r CDLl. Cafodd datblygiad manwerthu mawr, e.e., Cei'r Marina, ei gymeradwyo'n unol â pholisi lleol BSC 2 |
| PSE 7 – Cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd | Bodloni'r angen mesurol am fanwerthu ac eithrio bwyd yn y Sir | Darparu arwynebedd llawr newydd manwerthu nad yw'n fwyd yn y Rhyl, Prestatyn a Dinbych | Dim prosiectau wedi eu cyflawni erbyn 2015 | √ | Parc Manwerthu Prestatyn, dyraniad safle polisi CDLl PSE 7, agorwyd ym mis Mawrth 2013 |
| PSE 8 – Datblygiad yng nghanol trefi | Cynnal cydbwysedd defnyddiau manwerthu ac eraill yng nghanol trefi | Nifer o siopau wedi eu colli oherwydd newid defnydd | Cynnydd 5% mewn defnydd ar wahân i fanwerthu mewn canol tref am 3 blynedd olynol | √ | Nid oedd unrhyw ganol tref/dinas lle cofnodwyd cynnydd o 5% mewn defnydd heb fod at ddibenion manwerthu am 3 blynedd yn olynol |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| PSE 6 – Economi Manwerthu; PSE 8 – Datblygiad yng nghanol trefi; PSE 9 – Datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol | Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi | Nifer unedau manwerthu gwag yng nghanol trefi | Cyfradd unedau gwag o 15% neu fwy am 3 blynedd olynol | X | Mae cyfradd o fwy na 15% o unedau gwag wedi bod yng nghanol tref y Rhyl am 3 blynedd yn olynol – 2015: 19.3%; 2016: 20.8%; 2017: 20.6% |
| PSE 10 - Siopau a gwasanaethau lleol | Gwarchod siopau a gwasanaethau lleol | Nifer siopau neu wasanaethau lleol a gollir oherwydd newid defnydd | Colli unrhyw siop neu wasanaeth lleol yn groes i'r polisi | √ | Ni roesai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ganiatâd ar gyfer cynigion a fyddai'n arwain at golli siop neu wasanaeth yn groes i bolisi'r CDLl yn 2017/18 |

**Amcanion CDLl 5 & 6: Trafnidiaeth**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ASA 1 – Seilwaith trafnidiaeth newydd | Darparu ar gyfer mynediad diogel i bob defnyddiwr, gan gynnwys beicwyr, cerddwyr i wasanaethau cyhoeddus, manwerthu a | Nifer datblygiadau sy'n ymgorffori argymhellion a wnaed mewn asesiad trafnidiaeth ac archwiliadau | Un datblygiad yn methu ymgorffori'r argymhellion mewn asesiad trafnidiaeth ac archwiliadau defnyddwyr di-fodur | √ | Ni chymerodd y Cyngor unrhyw gamau gorfodi oherwydd diffyg cydymffurfio / methu â chynnwys argymhellion a wnaed mewn asesiad cludiant a/neu archwiliadau defnyddwyr |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | chyfleusterau cymunedol | defnyddwyr di-fodur | | | di-gerbyd mewn perthynas ag unrhyw gynnig cynllunio |
| ASA 2 – Darparu cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy | Defnyddio amodau cynllunio / cytundebau A106 i sicrhau gwella neu wneud cyfraniad i wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio sy'n debygol o gael eu hachosi gan ddatblygiadau newydd | Nifer datblygiadau newydd yn gwella neu'n gwneud cyfraniadau tuag at wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio trwy gyfrwng amodau cynllunio / cytundebau A106 | Dim datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniadau tuag at wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio trwy gyfrwng amodau cynllunio / cytundebau A106 ar ôl pedair blynedd | √ | Sicrhawyd gwelliannau i isadeiledd cludiant cyhoeddus, cerdded neu feicio drwy amodau cynllunio. Ni chaed unrhyw gyfraniadau ariannol yn rhan o unrhyw gytundeb Adran 106 |
| ASA 3 – Safonau parcio | Defnyddio safonau parcio uchaf mewn cynigion datblygu newydd yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol | Nifer datblygiadau newydd sy'n gwneud yn well na'r safonau parcio uchaf a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol | Un datblygiad newydd yn methu â chydymffurfio â'r safonau parcio uchaf | 0 | Rhoddwyd eithriadau i'r safonau parcio uchaf o ganlyniad i iechyd a diogelwch neu ystyriaethau cynllunio sylweddol eraill |
| BSC 5 – Safle Strategol Allweddol - Bodelwyddan | Darparu seilwaith ffyrdd newydd/gwella'r rhwydwaith ffyrdd presennol rhwng | Hyd seilwaith ffyrdd newydd/gwaith gwella i'r rhwydwaith | Dim seilwaith ffyrdd newydd/dim gwaith gwella i'r rhwydwaith presennol rhwng | Heb ei fonitro eto | Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol gan gynnwys Cytundeb Adran 106 i Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan – Ffordd Sarn | presennol rhwng Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan (Ffordd Sarn) | Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan (Ffordd Sarn) cyn meddiannaeth yr annedd cyntaf ar yr SSA. | | ym mis Mawrth 2016. Rhaid cymeradwyo'r amodau er mwyn cychwyn rhoi caniatâd cynllunio |
| | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus / mwy o gysylltiadau gwasanaeth bws rhwng Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol mewn trafodaeth â darparwyr gwasanaeth | Amlder gwasanaethau bws yn cysylltu Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol fesul awr | Dim cynnydd yn amlder gwasanaethau bws yn cysylltu SSA Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol yn unol â'r amserlen a gytunwyd gan ddatblygwyr a gweithredwyr | Heb ei fonitro eto | |
| | Darparu llwybrau beicio a cherdded / cyfleusterau newydd fel rhan o SSA Bodelwyddan i roddi cysylltiad rhwng ardaloedd preswyl a chyflogaeth / cyfleusterau cymunedol | Nifer / hyd llwybrau beicio a cherdded newydd / cyfleusterau fel rhan o Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | Dim llwybrau beicio a cherdded/cyfleusterau newydd cyn meddiannaeth yr annedd cyntaf ar y SSA | Heb ei fonitro eto | |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|

## Amcan CDLl 7: Yr Iaith Gymraeg

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| RD 5 - Yr iaith Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau | Dim niwed arwyddocaol i'r cymeriad Cymreig neu gydbwysedd ieithyddol y gymuned | Canlyniadau Datganiadau Ieithyddol Cymunedol neu Asesiadau a gyflwynwyd | Unrhyw ddatblygiad a ganiateir lle mae Datganiad Ieithyddol Cymunedol neu Asesiad yn dod i'r casgliad y byddai'r cymeriad Cymreig neu'r iaith yn cael eu niweidio lle nad yw niwed o'r fath yn cael ei drechu gan ystyriaethau eraill | √ | Ni chaniataodd y Cyngor unrhyw ddatblygiad pan oedd y dogfennau ategol yn nodi niwed i'r Gymraeg neu i ddiwylliant Cymru<br><br>Cymeradwyodd y Cyngor 1 enw Cymraeg newydd ar stryd. Mae'n groes i bolisi'r Cyngor i roi enw uniaith Saesneg ar strydoedd<br><br>Mabwysiadwyd y Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol ar 'Gynllunio a'r Iaith Gymraeg' ym mis Mawrth 2014 |
| | Cynnydd mewn arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ac enwau lleoedd Cymraeg | Defnyddio arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog a defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar ddatblygiadau newydd | Unrhyw ddatblygiad lle mae strydoedd neu fannau newydd yn cael eu creu heb gynnwys enwau Cymraeg neu arwyddion dwyieithog | √ | |
| | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg | Paratoi a mabwysiadu CCA | Mabwysiadu CCA o fewn 12 mis i fabwysiadu'r CDLl | √ | |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan CDLl 8: Mannau Agored Cyhoeddus** | | | | | |
| BSC 11 – Adloniant a Mannau Agored | Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniad digonol i ddarpariaeth mannau agored cyhoeddus | Nifer o unedau a ganiateir lle caiff gofynion mannau agored eu bodloni | 1 caniatâd cynllunio wedi ei roi lle nad yw gofynion mannau agored wedi eu bodloni, ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi | √ | Dim |
| | Gwarchod mannau agored a ddyrannwyd rhag datblygu | Faint o fannau agored a ddyrannwyd a gollwyd i ddatblygiad | 1 caniatâd cynllunio wedi ei roddi i ddatblygu ar fan agored, ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi | √ | |
| **Amcan CDLl 9: Mwynau** | | | | | |
| PSE 15 – Diogelu Mwynau | Gwarchod adnoddau mwynau ansawdd uchel, gan gynnwys carreg galch, tywod a graean, | Ardal o fwynau a gollwyd i ddatblygiad | Colli mwynau a adnabuwyd ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi | √ | Dim |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Carreg Grut Dinbych, adneuon igneaidd a folcanig rhag datblygiad a fyddai'n arwain at golled barhaol neu'n llesteirio echdynnu | | | | |
| PSE 16 – Parthau clustogi mwynau | Cynnal clustog rhwng datblygiad sensitif a chwareli | Nifer caniatâd cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad sensitif mewn parthau clustogi | Un caniatâd cynllunio neu fwy a ganiateir ar gyfer datblygiad sensitif mewn parth clustogi | √ | Ni roddwyd caniatâd cynllunio o fewn parthau clustogi mwynau yn ystod y cyfnod monitro |
| PSE 17 - Echdynnu mwynau yn y dyfodol | Cyfrannu tuag at y galw rhanbarthol am agregau | Tunelli o echdynnu tywod a graean a ganiateir. Cynnal banc tir 10 mlynedd o graig galed | Dim echdynnu wedi ei ganiatáu erbyn 2017. Banc tir yn syrthio islaw 10 mlynedd | X | Ni dderbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu tywod a graean hyd yn hyn<br><br>Mae Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi nodi angen i ddyrannu 2.2 miliwn tunnell o dywod a gro a 0.18 miliwn tunnell o gerrig mâl |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Roedd adnoddau rhanbarthol o fwy na 15 miliwn tunnell o dywod a graean ar ôl ar ddiwedd 2016, a oedd gyfwerth â banc tir am 17.8 mlynedd gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant 3 blynedd a 21.8 mlynedd gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd<br>Y banc tir ar gyfer cerrig mâl yn 2016 oedd 36.3 mlynedd (cyfartaledd gwerthiant 3 blynedd) a 36 (cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd) |

**Amcan CDLl 10: Gwastraff**

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| VOE 7 – Lleoliadau ar gyfer rheoli gwastraff | Bydd Sir Ddinbych yn cyfrannu tuag at angen rhanbarthol capasiti rheoli gwastraff | Canran capasiti rheoli gwastraff a ganiateir fel canran o'r capasiti cyfan gofynnol, fel yr adnabuwyd yn Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru | Llai na 50% o'r capasiti wedi ei ganiatáu erbyn 2015, naill ai o fewn neu'r tu allan i'r Sir, wedi ei gyflawni mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru, fel cyfran o'r capasiti sydd ei | 0 | Sicrhawyd caniatâd cynllunio i adeiladu cyfleuster 200 ciloton o ynni y flwyddyn o wastraff yn Sir y Fflint a fydd yn rheoli'r gwastraff gweddilliol sy'n codi ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys Sir Ddinbych |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | angen gan Sir Ddinbych | | |

**Amcan CDLl 11: Ynni**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| VOE 10 – Technolegau ynni adnewyddadwy | Symud tuag at darged TAN 8 ar gyfer ynni gwynt ar y tir | Capasiti datblygiadau ynni adnewyddadwy (MW) (wedi ei osod neu ei ganiatáu ond heb fod yn gweithio eto) yn yr Ardal Chwilio Strategol yn ôl math fesul blwyddyn (ar y cyd â CBSC) | Peidio â chyflawni'r targed a nodwyd yn TAN 8, Polisi Ynni Cenedlaethol neu Bolisi Cynllunio Cymru erbyn 2015 | √ | Nodyn Cyngor Technegol 8 'Targed Ynni Adnewyddadwy 140MW'; Cyfanswm gweithredol a chapasiti â chaniatâd Cyngor Sir Ddinbych oedd 189.45MW ar 31/03/15 (gweler Adroddiad Monitro Blynyddol CSDd 2015) |
| | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy | Paratoi a mabwysiadu CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol heb eu mabwysiadu erbyn 2013 | 0 | Cafodd nodyn Canllaw Cynllunio Atodol ar ynni adnewyddadwy ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Ebrill 2016 |
| VOE 9 –Ynni gwynt ar y tir | Cynyddu capasiti datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y Sir | Nifer a math cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiateir y flwyddyn | Llai nag 1 datblygiad y flwyddyn dros 3 blynedd olynol | √ | Cymeradwywyd dau gynllun i'w datblygu yn 2017/2018; 1 wedi cael caniatâd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, 1 wedi cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru'n groes i |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | benderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol |

**Amcan CDLl 12: Seilwaith**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BSC 3 – Sicrhau cyfraniadau seilwaith ar ddatblygiadau newydd | Sicrhau cyfraniadau tuag at seilwaith i ddiwallu gofynion ychwanegol cymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol yn codi o ddatblygiad | Nifer ymrwymiadau cynllunio a sicrhawyd | Methu â sicrhau cyfraniadau lle bo angen | √ | Yn 2017/2018, cafwyd cyfanswm o £170,924.54 o gyfraniadau ariannol a gytunwyd drwy ddatblygiadau newydd |
| BSC 12 – Cyfleusterau cymunedol | Rhwystro colli gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol | Nifer gwasanaethau neu gyfleusterau a gollir trwy newid | Colli unrhyw gyfleustra cymunedol oni chyfiawnheir yn unol â pholisi | √ | Dim |
| VOE 6 - Rheoli dŵr | Sicrhau nad yw datblygiad newydd yn cynyddu perygl llifogydd | % datblygiadau newydd gyda Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) wedi eu hymgorffori, neu | Methu â sicrhau unrhyw heriau neu heriau llwyddiannus i'r gofyniad, lle'n addas | √ | Dim |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ateb tebyg, lle'n addas | | | |
| | Sicrhau bod cynigion datblygu mawr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau dŵr heb niweidio'r amgylchedd | Nifer o gynigion datblygu mawr a ddatblygwyd yn unol â Datganiad Cadwraeth Dŵr | Methu â sicrhau unrhyw heriau neu heriau llwyddiannus i'r gofyniad, lle'n addas | √ | Nid oes angen Canllaw Cynllunio Atodol bellach gan fod Rheoliadau Adeiladu – Dogfen Gymeradwy G yn mynd i'r afael â mesurau/safonau arbed dŵr sydd angen eu bodloni mewn anheddau newydd. |
| | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â rheoli dŵr | Paratoi a mabwysiadu CCA | Canllawiau heb eu mabwysiadu erbyn 2015 | 0 | |

**Amcan CDLl 13: Datblygiad Defnydd Cymysg**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BSC 5 – Safle Strategol Allweddol - Bodelwyddan | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â'r Safle Strategol Allweddol | --- | Canllawiau Cynllunio Atodol heb eu mabwysiadu erbyn diwedd 2013 | 0 | Cafodd Brîff Datblygu Safle 'Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan' ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2014.<br><br>Derbyniwyd y cais cynllunio amlinellol ym mis Rhagfyr |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni'r Safle Strategol Allweddol | Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer 1715 o anheddau, 26 hectar o dir cyflogaeth a chyfleusterau a seilwaith cysylltiedig | Caniatâd cynllunio heb ei roddi erbyn diwedd 2013 | 0 | 2013 a derbyniodd ganiatâd, yn amodol ar gytundeb Adran 106, ym mis Ionawr 2015. Fe gymeradwywyd telerau ac amodau'r Cytundeb A106 ym mis Mawrth 2016. |

**Amcan CDLl 14: Dylunio**

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| RD 1 – Datblygiad cynaliadwy ac o safon dda | Parchu'r safle a'r ardal o gwmpas a sicrhau bod y tir a ddefnyddir yn gynaliadwy | Dwysedd datblygiad preswyl ar gyfartaledd a ganiateir | Dwysedd datblygiad preswyl ar gyfartaledd a ganiateir yn syrthio islaw 35 annedd fesul hectar oni chaiff ei gyfiawnhau gan bolisi | √ | Cymeradwyodd y Cyngor geisiadau cynllunio cyfanswm o 238 o anheddau<br><br>Cyfiawnhawyd gwyro oddi wrth y terfyn dwysedd o 35 annedd yr hectar pan oedd amodau penodol i'r safle'n golygu bod angen gwneud hynny |
| | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â dyluniad | --- | Canllawiau cynllunio atodol heb eu cyhoeddi erbyn diwedd 2013 | 0 | Cafodd Canllaw Cynllunio Atodol 'Datblygiad Preswyl' ei fabwysiadu ym mis Hydref 2016 |
| BSC 1 – Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych | Creu cymunedau cymysg a chytbwys | Darparu ystod o fathau, meintiau a daliadaeth tai i | Dim datblygiad wedi ei gwblhau gydag ystod o feintiau, mathau a | √ | Mae nifer o ddatblygiadau tai wedi'u cwblhau, neu'n dal i gael eu hadeiladu, sydd wedi darparu |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | adlewyrchu angen lleol | daliadaeth tai i adlewyrchu angen lleol | | gwahanol fathau a meintiau o dai i adlewyrchu'r angen lleol. Er enghraifft, datblygiad 'Dol Hyfryd' yn Ninbych |
| BSC 7 – Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Annibynnol | Rhwystro creu Tai Amlfeddiannaeth | Nifer o dai amlfeddiannaeth yn cael caniatâd cynllunio | 1 tŷ amlfeddiannaeth neu fwy yn cael caniatâd cynllunio | √ | Dim |
| VOE 1 – Ardaloedd gwarchodaeth allweddol | Cyfeirio datblygiad amhriodol i ffwrdd o'r gorlifdir | Faint o ddatblygiad a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.2 i-v) | 1 neu fwy yn cael caniatâd | √ | Dim |

**Amcan CDLl 15: Twristiaeth**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| PSE 1 – Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru | Cyfrannu tuag at yr economi ymwelwyr | Nifer cyfleusterau i dwristiaid a gollir oherwydd newid defnydd | Colli unrhyw gyfleusterau i dwristiaid ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â pholisi | √ | Nid oes unrhyw gofnodion cynllunio ynglŷn â cholli unrhyw gyfleuster twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, ac eithrio lle roedd cyfiawnhad dros wneud hynny yn unol â pholisi |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrannu tuag at yr economi ymwelwyr | Nifer caniatâd cynllunio a roddir ac a gwblheir yn unol â pholisïau PSE1 meini prawf iii), PSE 11, PSE 12 a PSE 14 | Dim caniatâd cynllunio wedi ei roi dros 3 blynedd yn unol â'r polisïau a enwir | √ | Rhoddodd y Cyngor ganiatâd i sawl cais cynllunio a oedd yn ymwneud â datblygiadau o fewn y 'Parthau gwarchod twristiaeth arfordirol' yn y Rhyl a Phrestatyn dros y tair blynedd ddiwethaf, er enghraifft, Heulfan newydd y Rhyl (SC2) a gwesty Travelodge ar y promenâd |
| VOE 3 – Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte | Gwarchod dynodiad Safle Treftadaeth y Byd, ei Werth Cyffredinol Eithriadol a'i leoliad | Paratoi CCA ar y cyd | Cyd-CCA heb ei fabwysiadu erbyn diwedd 2013 | √ | Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol ar y cyd, a oedd yn cynnwys Sir Ddinbych, Wrecsam a Swydd Amwythig yn Lloegr, ym mis Mehefin 2012 ac mae wedi'i adolygu ym mis Awst 2013 |
| | Gwarchod a gwella cymeriad Parth Clustogi Safle Treftadaeth y Byd | Paratoi CCA ar y cyd | Cyd-CCA heb ei fabwysiadu erbyn diwedd 2013 | √ | |

DRAFT

## Amcan CDLl 16: Ardaloedd Gwarchodaeth

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| VOE 5 – Gwarchod adnoddau naturiol | Gwarchod safleoedd cadwraeth natur a ddynodwyd yn statudol rhag effeithiau andwyol a achosir gan ddatblygiad newydd | Nifer datblygiadau sy'n cael effaith andwyol ar safleoedd cadwraeth natur a ddynodwyd yn statudol | Dim cynnig datblygu a gafodd ganiatâd cynllunio a fyddai'n cael effaith andwyol ar safleoedd cadwraeth natur a ddynodwyd yn statudol ac oni chaiff ei dderbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel un sy'n angenrheidiol i reoli'r safle a ddynodwyd | √ | Ni roddwyd caniatâd i unrhyw gais cynllunio a fyddai'n cael effaith niweidiol ar safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn statudol. Ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru a Swyddog Ecoleg a Bioamrywiaeth y Sir ar gynigion sy'n debygol o gael effaith ar nodweddion ecolegol |

## Amcanion polisi cenedlaethol

| Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyflawni tai newydd ar safleoedd a ddynodwyd | Nifer caniatâd cynllunio a roddwyd ar safleoedd a ddyrannwyd, fel % o'r datblygiad cyfan a ganiateir (hectarau ac unedau) | --- | --- | Cymeradwywyd cyfanswm o 97.9% o'r holl ddatblygiadau preswyl ar safleoedd a ddyrannwyd |
| Cynnal bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi | Faint o ddatblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden mawr (m sg) a ganiateir mewn canol trefi a | --- | --- | Ni fu unrhyw ddatblygiad unigol mawr yng nghanol unrhyw ddinas na thref yn 2017/18 |

DRAFT

| Polisi CDLl | Targed Polisi | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | fynegwyd fel canran o'r holl ddatblygiad mawr a ganiateir | | | |
| | Faint o ddatblygiad preswyl sy'n bodloni Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 a chael 6 chredyd dan Ene 1 – Cyfradd Allyriad Anheddau | Holl ddatblygiadau tai newydd i fodloni'r gofyniad Cenedlaethol hwn | Un datblygiad newydd nad yw'n bodloni gofynion cenedlaethol | N/A | Nid yw Targed y Polisi a'r Dangosydd bellach yn cael eu cynnwys gan ddeddfwriaeth gynllunio. Mae Adran 4.12 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) wedi cael ei diwygio i ddileu'r polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar safonau adeiladu cynaliadwy. Gwnaed y newidiadau hyn ar ôl i ddiwygiadau i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni ddod i rym |
| | Faint o ddatblygiad amhreswyl dros 1,000m² ar safle dros 1ha sy'n bodloni safon 'da iawn' BREEAM a chyflawni credydau gorfodol ar gyfer Rhagorol dan Ene 7 – Gostwng Allyriad CO2 | Holl ddatblygiadau amhreswyl newydd i fodloni'r gofyniad Cenedlaethol hwn | Un datblygiad newydd nad yw'n bodloni gofynion cenedlaethol | N/A | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd : Sicrhau bod anghenion tai'r gymuned yn cael eu diwallu** | | | | |
| Mae'r CDLl yn cynnwys nifer o bolisïau sy'n hyrwyddo tai newydd a ddylai wneud cyfraniad cadarnhaol i'r anghenion tai | Nifer y cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu darparu'r flwyddyn a'r % o achosion o ganiatâd cynllunio preswyl cymwys lle mae tai fforddiadwy wedi'u negodi | Dilyn y canllaw ar ddarparu tai fforddiadwy yn yr Asesiad interim ar Farchnad Dai Gogledd-ddwyrain Cymru ar | √ | Cartrefi fforddiadwy – mae cyfraddau darparu wedi amrywio'n flynyddol, gyda 756 wedi'u darparu yn ystod cyfnod y Cynllun hyd yma. Mae Asesiad diwygiedig y Farchnad Dai leol wedi'i gwblhau ers mis Mehefin 2015 a bydd fersiwn wedi'i ddiweddaru erbyn mis Gorffennaf 2018. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLl, mae pob datblygiad preswyl wedi bodloni gofynion y polisi ar gyfer darpariaeth fforddiadwy oni bai fod gwyriad wedi'i gyfiawnhau yn unol â Pholisi BSC 4 a CCA Tai Fforddiadwy<br><br>SARTH yw'r Un Llwybr Mynediad At Dai (*Single Access Route to Housing*) a weithredwyd yn llawn gan Gyngor Sir Ddinbych ar 1 Ebrill 2017. Mae'n cynnwys holl Restri Aros Tai Cymdeithasol y gall preswylwyr Sir Ddinbych wneud cais arnynt am Dai Cymdeithasol. Roedd 1,366 ar y rhestr ar 1 Mawrth 2018. Mae'r nifer wedi cynyddu'n araf ers cyflwyno SARTH gan fod ceisiadau wedi'u hailgofrestru |
| | % o dai gwag | 100% | 0 | |
| | Aelwydydd ar y gofrestr Dai | Gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr aelwydydd ar y gofrestr dai | √ | |
| | % o dai nad ydynt yn ffit yn erbyn Safon Ansawdd Tai Cymru | Lleihau canran y cartrefi nad ydynt yn ffit | √ | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Prisiau eiddo cyfartalog o gymharu ag enillion cyfartalog | Lleihau'r gymhareb o brisiau eiddo ac enillion; Ffynhonnell: www.landreg/gov.uk / Wealth of the Nation, 2004 | X | Prisiau eiddo – mae prisiau eiddo wedi gostwng yn y Sir o ganlyniad i'r dirywiad economaidd ac mae'r cynnydd wedi bod yn araf gan fod y prisiau o amgylch cyfartaledd pris 2009<br>Pris cyfartalog Ionawr 2018 £145,712; Ffynhonnell: y Gofrestrfa Tir<br><br>Pris eiddo / enillion cyfartalog: 4.67 (2009)<br>Pris eiddo / enillion cyfartalog: 5.58 (2017) |

## Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Hybu iechyd a lles cymunedol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hybu iechyd a lles cymunedol | Disgwyliad oes | Cynnal/cynyddu disgwyliad oes; Ffynhonnell: www.statistics.gov.uk | √ | Mae cynnydd bach wedi bod yn nisgwyliad oes (dynion / merched) ers 2006, er bod y ffigyrau'r isaf yng Ngogledd Cymru |
| | Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n ymgorffori Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | 100% ar gyfer datblygiadau mawr | n/a | Nid yw Asesiadau o Effaith ar Iechyd yn orfodol yn system gynllunio Cymru. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cyflawni Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer Brîff Datblygu Safle Bodelwyddan a Chanllaw Cynllunio Atodol Mannau Agored. Defnyddir |
| | Boddhad Cymunedau / arolygon | Lleihau'r % o bobl sy'n disgrifio eu hiechyd yn wael | Data heb ei gasglu | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | canfyddiad – Arolygon Ystadau Tai | | | Asesiad y Cyngor o Effaith ar Les wrth wneud penderfyniadau, sy'n ystyried gwahanol fathau o effeithiau ar wasanaethau lleol<br><br>Mae mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn parhau'n broblem ond nid yw Sir Ddinbych yn awdurdod a nodwyd fel un o'r rhai â'r cyfrannau uchaf o wardiau yn y 10% gwaethaf (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014). Ystadegau diweddaraf.<br>Sir wledig yw Sir Ddinbych yn bennaf. Dim ond nifer bychan o gartrefi sy'n byw o fewn pellter cerdded rhesymol i wasanaethau iechyd allweddol |
| | Mynegeion amddifadedd | Lleihau'r % o'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig | √ | |
| | Cyfran yr aelwydydd nad ydynt yn byw o fewn 400m o'u man gwyrdd naturiol agosaf | 0% Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (CCCC) Safonau Mannau Gwyrdd Hygyrch | Data heb ei gasglu | |
| | Cyfran yr aelwydydd o fewn pellter cerdded rhesymol o'u gwasanaethau iechyd allweddol | Cynnydd | | |

**Amcan 3 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Hybu cymdogaethau mwy diogel a chyfrannu at leihau ofn troseddau**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hybu iechyd a lles cymunedol; mae'r CDLl yn cyfeirio at ddiogelwch a throseddau mewn | Cyfraddau troseddau cyffredinol yn ôl mathau | Lleihau cyfraddau troseddau o flwyddyn i flwyddyn | 0 | Mae'r cyfraddau troseddu o flwyddyn i flwyddyn wedi cynyddu ers mis Ebrill 2015; o 721 ym mis Ebrill 2015 i 978 ym mis Ebrill 2018 (Ffynhonnell: ukcrimestats.com, 6 Awst 2018) |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| polisïau sy'n ystyried dyluniad | Cyfraddau troseddau cyfartalog yn Sir Ddinbych fesul 1000 o drigolion | Lleihau nifer y troseddau sy'n cael eu cyflawni fesul 1000 o drigolion | √ | Mabwysiadodd y Cyngor Ganllaw Cynllunio Atodol ar Ddiogelwch Cymunedol ym mis Mawrth 2017 |
| **Amcan 4 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Gwella'r ddarpariaeth bresennol a hybu datblygiad mannau hamdden ac agored o safon uchel a darparu cyfleoedd i bobl brofi a pharchu gwerth yr amgylchedd naturiol** | | | | |
| Mae'r polisïau yn y CDLl yn ceisio diogelu mannau agored ac felly rhagwelir y bydd yr effeithiau yn rhai cadarnhaol | Mynediad / argaeledd cyfleusterau cymunedol | Cynyddu'r % o drigolion sy'n defnyddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod a/neu breifat o leiaf unwaith yr wythnos | √ | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol (Dangosydd Strategol Cenedlaethol): 04/2015 – 812,498 o bobl; 04/2016 – 867,505 o bobl; 04/2017 – 868,519 o bobl |
| | Sawl caniatâd preswyl a roddwyd pan fydd y gofynion mannau agored yn cael eu cyflawni | 100% | 0 | Roedd pob caniatâd cynllunio a roddwyd yn bodloni gofynion mannau agored fel y nodir ym Mholisi BSC 11. Mae nifer o apeliadau wedi cael eu cyflwyno a'u hennill i geisio cael gwared ar amodau sy'n ymwneud â thalu symiau cymudol ar gyfer mannau agored. Cyflawnwyd archwiliad o fannau agored yn 2016 sy'n cefnogi gofynion mannau agored yn y dyfodol. Roedd y Cyngor wedi |
| | Sawl hectar o dir gwledig agored a mannau gwyrdd lleol hygyrch | Cynyddu (defnyddio'r Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd) | Data heb ei gasglu | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer a % y trigolion sy'n defnyddio parciau, mannau agored a gwarchodfeydd natur yn flynyddol | Cynyddu'r niferoedd o flwyddyn i flwyddyn | √ | mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol diwygiedig 'Mannau Agored Hamdden' ym mis Mawrth 2017 |

**Amcan 5 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Gwella mynediad at addysg, cyflogaeth, iechyd, cartrefi a gwasanaethau cymunedol i bob rhan o'r gymuned drwy fathau o gludiant ar wahân i'r car preifat**

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yn bwysig monitro argaeledd cyfleoedd | Hygyrchedd/argaeledd cyfleusterau cymunedol (ysgolion, cyfleusterau iechyd a chymdeithasol, meithrinfeydd, sefydliadau addysg bellach, neuaddau cymunedol, eglwysi, llyfrgelloedd, cartrefi preswyl i'r henoed, mynwentydd, mannau agored, cyfleusterau chwaraeon, llety â chymorth, theatrau a sinemâu) | Y pellteroedd o eiddo trigolion i gyfleusterau cymunedol fel y'u rhestrwyd yn y dangosydd i gydymffurfio â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | 0 | Gan ddefnyddio ystadegau amddifadedd o ran mynediad i wasanaethau fel canllaw, mae mynediad i wasanaethau yn Sir Ddinbych yn waeth na Chonwy, ac yn llawer gwaeth nac awdurdodau mwy trefol Wrecsam a Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae mynediad i wasanaethau yn Sir Ddinbych yn llawer gwell nag Ynys Môn a Gwynedd ac mae eu hardaloedd mwy gwledig yn beth negyddol yn hyn o beth. Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 ar gyfer 'anheddau pentrefi, pentrefannau ac ynysig' yn dangos bod poblogaeth breswyl wledig Cymru yn treulio llawer mwy o amser yn teithio i gyrraedd |
| | % o'r boblogaeth breswyl wledig sydd o fewn pellter cerdded i wasanaethau allweddol | Cynnal a gwella'r gyfran | 0 | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Data teithio i'r gwaith/rhaniad moddol | Lleihau'r pellter teithio i'r gwaith a lleihau'r % o bobl sy'n teithio mewn car preifat. Cynyddu'r % o bobl sy'n teithio drwy ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy (cerdded/beicio/trafnidiaeth gyhoeddus) | 0 | gwasanaethau allweddol nag mewn ardaloedd mwy trefol. Ni ellir ond cael hyd i ddata a ddefnyddir i gynnal a gwella cyfran y boblogaeth breswyl sydd o fewn pellter cerdded at wasanaethau allweddol ar lefel genedlaethol a'r diweddariad diwethaf i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw data a gasglwyd fis Mawrth 2015. Mae felly'n anodd dod o hyd i duedd ar gyfer y dangosydd hwn. Ni fu unrhyw ddiweddariad pellach i ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ers 2014<br><br>Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 67% o breswylwyr yn teithio i'r gwaith mewn car/fan, gyda 18% yn defnyddio cludiant cynaliadwy. Mae lefelau traffig wedi bod yn eithaf cyson yn Sir Ddinbych wrth i gerbydau deithio 0.88 biliwn gilometrau yn 2007 ac eto yn 2015 |
| | Symiau traffig | Lleihau cyfraddau twf traffig | 0 | |
| | Cyfran y datblygiadau newydd (tai/economaidd/ manwerthu) sydd wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded rhesymol o drafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau beicio a llwybrau troed | Monitro datblygiadau newydd o fewn pellteroedd cerdded rhesymol | Nid oes data ar gael | |
| | Amlder/dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus | Cynnal a gwella amlder | √ | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Hyd y rhwydwaith bysiau | Cynnal a gwella amlder | 0 | |
| | Nifer y setliadau sy'n cael eu gwasanaethu gan fysiau/trenau | Cynnal a gwella amlder | Data heb ei gasglu | |
| | % o ddatblygiadau preswyl sy'n gwneud cyfraniadau seilwaith perthnasol | Cofnodi'r swm a ddarparwyd a'r dull gwariant | Data heb ei gasglu | |

**Amcan 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Diogelu a gwella'r iaith Gymraeg a'i Diwylliant, yn cynnwys asedau treftadaeth y Sir**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Polisi DG 4 y CDLl ac amcan y CDLl i gadw pobl ifanc yn y Sir drwy ddarparu tai fforddiadwy | Cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y Sir a'u dosbarthiad | Cynnal a gwella'r gyfran | 0 | Mae'r ffigurau o Gyfrifiad 2011 yn dangos dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych o 26.7% i 24.6% ers 2001.<br>Yn yr un modd, mae canran y rhai sydd â sgiliau Cymraeg wedi lleihau o 36% i 35.4%. Fodd bynnag, mae ffigurau amcangyfrifon arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru (gweler StatsCymru, 'amcangyfrifon arolwg blynyddol o'r boblogaeth o unigolion 3 oed a hŷn sy'n dweud eu |
| | Cyfran y bobl â sgiliau yn yr Iaith Gymraeg | Cynnal a gwella'r gyfran | 0 | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Ysgolion a darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg fel cyfran o'r holl ysgolion | Cynnal a gwella'r gyfran | √ | bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a mesurydd') yn nodi bod % yr unigolion 3 oed sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych wedi gostwng fymryn o 35.8% i 35.7% rhwng 2006 a diwedd 2017 |
| | Deunydd dwyieithog cyhoeddedig | Cynnal a gwella'r gyfran | √ | Rhagwelir y bydd capasiti Cymraeg ysgolion cynradd yn parhau'r un fath yn nalgylchoedd Dinbych, Prestatyn, y Rhyl a Rhuthun.<br>Rhagwelir cynnydd mewn capasiti yn nalgylchoedd Dyffryn Dyfrdwy (127 yn 2015 – 135 yn 2018) a Llanelwy (51 yn 2015 – 69 yn 2018). |
| | % o Henebion Rhestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth, Tirluniau Hanesyddol o safon | Dim gostyngiad i ansawdd | Data heb ei gasglu | Mae'n rhaid i'r holl ddeunydd a gyhoeddir gan y Cyngor fod yn ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg. |
| | Nifer yr adeiladau rhestredig ar y 'Gofrestr Adeiladau mewn Perygl' | Gostyngiad | Data heb ei gasglu | Ychydig iawn o Henebion Cofrestredig sydd yn Sir Ddinbych. Lluniwyd y gofrestr yn yr ardal hon gan Cadw yn 1995 ac nid oes arolwg dilynol wedi bod gan Cadw ers hynny, felly nid oes gwybodaeth wrthrychol y gellid dibynnu arni. Mae |
| | % o Henebion Cofrestredig sy'n destun gweithredoedd cadarnhaol a gynhaliwyd gan | Cynnydd | Data heb ei gasglu | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Gyngor Sir Ddinbych o ganlyniad i gynigion y cynllun | | | Tirweddau Hanesyddol yn ardaloedd eang sy'n amhosib' eu monitro. |
| | % o ddymchweliadau mewn Ardaloedd Cadwraeth | Nifer isel o ddymchweliadau | 0 | Nid oes ffigyrau ar gael ers 1995 ar adeiladau sydd wedi cael eu tynnu o'r categori risg ac nid oes ffigurau ar adeiladau sydd efallai wedi'u hychwanegu. Yn 2011 y cynhaliwyd arolwg risg adeiladau ddiwethaf. Mae Cadw wrthi'n cynnal arolwg risg adeiladau ar gyfer Cymru gyfan ond nid ydynt wedi bod yn Sir Ddinbych eto. Gall dymchwel ac ailddatblygu mewn Mannau Cadwraeth gyfrannu'n gadarnhaol tuag at yr amgylchedd adeiledig. Felly, nid yw cadw'r nifer yn 'isel' yn darged y dylid, o reidrwydd, geisio'i chyrraedd. Mae pob Ardal Cadwraeth yn Sir Ddinbych yn elwa o gael gwerthusiad cymeriad. Mae'r Cyngor wrthi'n cyflawni adolygiad o rai unigol. Mae disgwyl ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Ardal Gadwraeth y Rhyl yn nes ymlaen yn 2018. |
| | % o Ardaloedd Cadwraeth gyda gwerthusiad cymeriad cyfredol | 50% yn gyfredol | √ | |
| | Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth sydd wedi'u heffeithio'n andwyol gan gynigion y cynllun | 0 | Data heb ei gasglu | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 7 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Cefnogi datblygiad** | | | | |
| Caniateir tir cyflogaeth newydd yn y Sir a bydd yn bwysig monitro'r tir sy'n cael ei ddefnyddio. Hefyd, bydd yr Ardal Adfywio Strategol yn datblygu cynlluniau adfywio a fydd yn cael effeithiau ar lefelau amddifadedd yng ngogledd y Sir. Bydd y wybodaeth am y nifer a'r math o arallgyfeirio gwledig yn cael ei monitro am dueddiadau ac effeithiau. | Gwerth Ychwanegol Gros y pen | Cynyddu Gwerth Ychwanegol Gros y pen | √ | Gwerth Ychwanegol Gros yn ôl ardaloedd NUTS3 Cymru (h.y. Conwy a Sir Ddinbych) fesul £ y pen: £13,700 (2006); £16,452 (2016) [Ffigyrau diweddaraf gan StatsCymru] |
| | Gwerth Ychwanegol Gros y gweithiwr | Cynyddu Gwerth Ychwanegol Gros y gweithiwr | √ | |
| | Cyfran y gweithgarwch economaidd yn ôl sector | Cynyddu nifer y sectorau, yn arbennig tueddiadau gwledig | Data heb ei gasglu | |
| | % o newidiadau i nifer y mentrau sydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW | Cynyddu'r nifer gyffredinol o fentrau sydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW | √ | Nifer o fentrau wedi cofrestru ar gyfer TAW/ nifer o fentrau gweithredol wedi cynyddu ychydig o 3155 (2006) i 3385 (2016). [Ffigyrau diweddaraf gan StatsCymru] |
| | Cyfraddau cyflogaeth / diweithdra | Gostyngiad yn y gyfradd ddiweithdra | | Cyfradd cyflogaeth Sir Ddinbych – 71.6% (Blwyddyn yn dod i ben ar |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | 0 | 31/03/07) wedi cynyddu i 73.8% (Blwyddyn yn dod i ben ar 31/03/17). Cyfradd ddiweithdra Sir Ddinbych – 4.0% (Blwyddyn yn dod i ben ar 31/03/07) wedi disgyn i 2.8% (Blwyddyn dod i ben ar 31/03/07) [Ffigurau o StatsCymru] |
| | Nifer y bobl ddi-waith sy'n hawlio budd-dal diweithdra o gymharu â'r gyfran o drigolion sydd o oedran gweithio | Lleihau'r gyfran o bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra | √ | Nifer yn Sir Ddinbych sy'n hawlio budd-dal diweithdra – 2,125 (Awst 2011) wedi disgyn i 1,150 (Ionawr 2018) [Ffigyrau gan StatsCymru] |
| | Y defnydd o dir cyflogaeth | Cynyddu'r defnydd o dir cyflogaeth | 0 | Nid oes unrhyw duedd glir yn dangos bod mwy a mwy o dir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflogaeth |

**Amcan 8 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol tref a chanolfannau gwledig**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r CDLl yn diogelu canolfannau tref craidd rhag newidiadau amhriodol i'w defnydd ac felly dylid monitro | Cyfraddau gwacter yng nghanol trefi | Lleihau'r swm o arwynebedd llawr gwag | 0 | Mae cyfraddau unedau gwag yng nghanol trefi lleol yn amrywio drwy'r Sir a chanol tref y Rhyl fu'r unig un â thros 15% am 3 blynedd yn olynol |
| | Ansawdd canol trefi (arolygon canfyddiadau) | Cynnal a gwella'r ansawdd | √ | Mae'r Cyngor ar hyn o bryd wrthi'n cynnal asesiad o ansawdd canol trefi |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| effaith gadarnhaol | y % o newidiadau i gyfanswm y mentrau sydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW mewn canol trefi a chanolfannau gwledig | Cynyddu nifer y busnesau sydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW | 0 | Mae nifer y busnesau gweithredol yn Sir Ddinbych wedi cynyddu o 3,155 yn 2006 i 3,385 yn 2016 (StatsCymru) |
| | y % o newid yng nghyfanswm y siopau, tafarndai a swyddfeydd post mewn canolfannau gwledig | Atal colli siopau, tafarndai a swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig, fel y bo'n briodol | Data heb ei gasglu | |

**Amcan 9 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Gwneud y defnydd gorau o dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes ac adeiladau presennol mewn lleoliadau sy'n cael eu gwasanaethu gan ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gallai'r datblygiad newydd sy'n cael ei hyrwyddo drwy'r CDLl arwain at adfer tir llwyd | % o anheddau sydd wedi'u hadeiladu ar dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes | y % o anheddau newydd a fydd yn cael eu hadeiladu ar dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes | √ | Yn 2017/18, dim ond 33.60% o ddatblygiadau tai a chyflogaeth a godwyd ar dir llwyd<br><br>Mae dwysedd datblygiadau o 30 annedd i bob hectar wedi'i annog a'i weithredu lle bynnag bo'n briodol o ran cymeriad yr ardal amgylchynol. Nifer cyfyngedig o ddatblygiadau'n cael eu darparu ar hyn o bryd ar safleoedd a ddyrannwyd o'r newydd yn y CDLl i fesur effaith terfyn dwysedd ym mholisi RD 1. DS: Gofyniad polisi RD 1 yw 35 annedd i |
| | Nifer y datblygiadau sy'n cyflawni dwyster o rhwng 30 - 50 dph a % uwch yng nghanol trefi ac ardaloedd â mynediad uchel at drafnidiaeth gyhoeddus | Mae pob datblygiad yn anelu at ddwyster o 30 annedd fesul hectar | 0 | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Y swm o dir diffaith | Gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn | 0 | bob hectar. Rhyd y Byll, Rhewl: 46 annedd i bob hectar<br><br>Mae 9.95 hectar o dir wedi'i ddynodi dan bolisi BSC 2 y CDLl (blaenoriaethu datblygu tir llwyd) i leihau faint o dir sy'n ddiffaith. Mae 5.3 hectar o ddatblygiad manwerthu a hamdden yn cael ei adeiladu yn Ocean Plaza (Cei'r Marina, y Rhyl) 1.2 hectar ar gyfer bwyty newydd yn Nhriongl Rhuddlan a 0.78 hectar ar gyfer storfa fwyd yn yr hen weithfeydd nwy, Prestatyn<br><br>Nifer yr anheddau gwag sydd bellach yn cael eu defnyddio drwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol yn 2017/18: 52 |
| | Nifer yr eiddo gwag | Gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn | 0 | |

**Amcan 10 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: Diogelu ansawdd a swyddogaeth pridd a chynnal cynhyrchiant hirdymor tir amaethyddol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bydd y datblygiad newydd sy'n cael ei hybu drwy'r CDLl yn arwain at dynnu pridd o'r tir. | Cyfanswm y tir halogedig | Lleihau'r ardal o halogiad o flwyddyn i flwyddyn | √ | Gwnaed gwaith adfer tir ar safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl ar 0.78 o dir ar gyfer storfa fwyd yn yr hen weithfeydd nwy, Prestatyn ac 1.73 hectar ar gyfer datblygiad manwerthu yn Station Yard, Dinbych. Lle nad yw datblygiad wedi |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yr ardal sy'n cael ei adfer fel rhan o ddatblygiad newydd | Adfer yr holl ardaloedd halogedig i safon foddhaol pan fydd hynny'n ofynnol mewn datblygiad newydd | √ | dechrau eto, bydd hyn yn cael ei reoli drwy ddefnyddio'r amodau sydd ynghlwm â'r caniatâd cynllunio |
| | Methodoleg rheoli pridd | Camau lliniaru cadarnhaol ac ailddefnyddio/ailosod pridd | √ | |

**Amcan 11 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Diogelu a gwella pob safle cadwraeth newydd, rhywogaethau a warchodir a safleoedd geoamrywiaeth dynodedig rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ac osgoi eu niweidio a'u darnio. Diogelu, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt priodol mewn ardaloedd trefol a gwledig a gwella bioamrywiaeth**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae polisïau yn y CDLl i ddiogelu bioamrywiaeth yn y Sir ac felly rhagwelir y bydd yr effeithiau yn gadarnhaol. Fodd bynnag, dylid casglu gwybodaeth ynglŷn â chyflwr a | Ardal a chyflwr safleoedd cadwraeth natur statudol. Ardal a chyflwr safleoedd cadwraeth natur anstatudol. | 85% o nodweddion SoDdGA mewn cyflwr ffafriol erbyn 2013. Dim effeithiau andwyol ar ACA/AGA | √ | Mae mesurau gwarchod natur a gwella bioamrywiaeth yn brif ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Ni roddwyd caniatâd i unrhyw gais cynllunio a fyddai'n cael effaith niweidiol ar safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn statudol<br><br>Ymgynghorir â'r Swyddog Ecoleg a Bioamrywiaeth ar gynigion sydd yn |
| | y % o safleoedd dynodedig sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ALl | Gwella cyflwr pob safle dynodedig | Data heb ei gasglu | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| gwella'r safleoedd i wella effeithiolrwydd polisïau'r CDLl | Nifer y cynigion/polisïau sy'n arwain at golli neu ddifrod i safleoedd dynodedig | Dim colled neu ddifrod i safleoedd dynodedig ar bob lefel | √ | debygol o gael effaith ar nodweddion ecolegol<br><br>Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Ddinbych yn adrodd ar gamau gweithredu sy'n dod o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth. Mae 75 wedi'u rhestru ar wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth<br><br>Ni fu gostyngiad yn nifer y Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (RIGS) |
| | Cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Adroddiadau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Blynyddol | √ | |
| | Nifer y Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol | Dim gostyngiad yn y nifer | √ | |
| | Ardal o dir sy'n cael ei rheoli'n weithredol er mwyn gwarchod natur | Cynnydd yn yr ardal o dir sy'n cael ei rheoli gan Gynllunio Stiwardiaeth Amgylcheddol e.e. Tir Gofal | Data heb ei gasglu | |
| | Nifer y cynlluniau datblygu sy'n cynnwys cynllunio nodweddion ecolegol | Cynyddu cyfran y cynlluniau ecolegol mewn datblygiadau newydd | Data heb ei gasglu | |
| | Y cyfundrefnau cynnal a chadw sydd ar waith ar gyfer cynefinoedd newydd ar | 100% | √ | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | ddatblygiadau newydd | | | |

**Amcan 12 yr Arfarniadau o gynaliadwyedd: Cadw a gwella cymeriad tirlun ar draws y Sir, yn arbennig yr AHNE**

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r CDLl yn ceisio diogelu'r tirlun lleol. Bydd yn bwysig monitro a yw datblygiadau newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol i ansawdd cynllun anheddau | % o'r sir sydd wedi'i dynodi ar gyfer tirwedd | Dim gostyngiad | √ | Estyniad i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'i gefnogi a'i gyflawni<br><br>CCA ar gyfer yr AHNE a Safle Treftadaeth y Byd wedi'i fabwysiadu. Dim newidiadau i werthusiad LANDMAP |
| | % o'r sir sydd wedi'i dynodi'n dirwedd o ansawdd uchel neu eithriadol (astudiaethau LANDMAP) | Dim gostyngiad | √ | |
| | Newidiadau i'r gwerthusiad LANDMAP a graddau'r newid hwnnw o ganlyniad i'r datblygiad | Dim newidiadau | √ | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan 13 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Diogelu a gwella ansawdd y dŵr ac ansawdd dyfroedd mewndirol ac arfordirol** | | | | |
| Mae'r CDLl yn ceisio diogelu ansawdd yr adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear. Mae argaeledd adnoddau dŵr yn rhan o gylch gwaith Dŵr Cymru, sy'n gyfrifol am reoli'r cyflenwad dŵr a'r galw am ddŵr ar hyd a lled Cymru, er y cydnabyddir y bydd lefelau twf ymhob anheddiad yn effeithio ar hyn. Mae dangosyddion wedi'u cynnig i fonitro ansawdd dŵr ac effeithiau posibl datblygiadau newydd. Mae'r CDLl hefyd yn | % o gyrsiau dŵr y dyfernir bod eu hansawdd biolegol a chemegol yn dda | dylai 91% o hyd afonydd yn y DU fod o ansawdd da erbyn 2010. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio i gyflawni'r targed hwn. Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru | √ | Yn 2015, cafodd 42% o ddyfroedd Cymru statws ecolegol dda neu well – cynnydd o gymharu â 31.2% yn 2009. Mae dŵr môr arfordir Gogledd Cymru yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi (DS: Ni fu unrhyw ddiweddariad ers 2015) |
| | Cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi, dyfarniadau Baner Las Ewrop a Glan y Môr y DU | Cydymffurfiaeth o 100% | √ | Nid oes cofnodion am ddigwyddiadau llygredd dŵr mawr neu sylweddol oherwydd datblygiadau newydd |
| | Ansawdd dŵr daear | Cynnal ansawdd dŵr daear | Data heb ei gasglu | |
| | Dosbarthu dyfrhaenau a'u gwendidau | Cynnal ansawdd dŵr daear | Data heb ei gasglu | |
| | Nifer y digwyddiadau o lygredd dŵr mawr ac arwyddocaol oherwydd datblygiadau newydd | 0% | √ | Defnydd o ddŵr y pen yn ôl y flwyddyn yng Nghymru o 150 litr (2006) i 149 litr (2011) y pen bob dydd. Ffigyrau wedi'u diweddaru |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| hyrwyddo cynlluniau a gwaith adeiladu cynaliadwy ac felly bydd yn fuddiol monitro'r defnydd o ddŵr yn y CDLl, er bod gweithredoedd unigol hefyd yn effeithio ar hyn. | Tynnu dŵr wyneb a dŵr daear (trwyddedig a phreifat) | --- | Data heb ei gasglu | ddiwethaf gan StatsCymru: 25 Gorffennaf 2012 |
| | y % o ganiatâd cynllunio gyda dyfeisiadau arbed dŵr/ailgylchu dŵr llwyd yn ofynnol fel rhan o'r amodau | Lleihau'r defnydd cyffredinol o ddŵr mewn datblygiadau newydd | Data heb ei gasglu | |
| | Yr amcangyfrif o ddefnydd dŵr aelwydydd (litr y pen y dydd) | Gostyngiad hir dymor | √ | |

**Amcan 14 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Lleihau'r perygl o lifogydd a sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae yna nifer o bolisïau i gyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac felly dylai'r effeithiau fod yn gadarnhaol. Y graddau y mae angen | y % o geisiadau cynllunio gyda systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'r amodau | Pob cynnig am ddatblygiadau newydd i ddangos bod draenio cynaliadwy wedi'i ystyried a'i gyflwyno os yn briodol; Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru | √ | Lle bo hynny'n berthnasol, rhaid cyflwyno gwybodaeth am Systemau Draenio Cynaliadwy gyda phob cais cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru newydd roi deddfwriaeth i'r diben hwnnw mewn grym |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| arwynebeddau hydraidd a'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy | Y nifer o ddatblygiadau sydd mewn perygl o lifogydd sy'n cael caniatâd cynllunio mewn ardaloedd gorlifdir C1 a/neu C2 yn groes i gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru | 0% | 0 | Dim |

**Amcan 15 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Diogelu a gwella ansawdd aer**

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Ni ragwelir y bydd y CDLl yn creu effeithiau niweidiol i ansawdd yr aer. Fodd bynnag, gellid cynnal rhywfaint o waith monitro cyd-destunol i gefnogi gwaith monitro arall | Lefelau o'r prif lygryddion | Cyflawni'r Safonau Ansawdd Aer Cenedlaethol | √ | Nid oes Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi'i sefydlu yn Sir Ddinbych eto |
| | Nifer y dyddiau y mae'r llygredd aer yn gymedrol neu'n uchel ar gyfer NO2, SO2, O3, CO neu PM10 | --- | Data heb ei gasglu | |

**Amcan 16 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Cyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (yn arbennig C02) drwy arbed mwy o ynni ac effeithlonrwydd mewn datblygiadau a chefnogi**

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Monitro llwyddiant gofyniad 01/2009 MIPPS ar gyfer | Allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol yn ôl sector | Lleihau allyriadau C02 o 20% erbyn 2010 a 60% erbyn 2050 o ffigur gwaelodlin | √ | Mae Cymru a Sir Ddinbych wedi dangos gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Roedd lefel |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| datblygiadau newydd | | 1990 (targed cenedlaethol) Ffynhonnell: Rhaglen y DU ar Newid yn yr Hinsawdd 2000 | | allyriadau $CO_2$ Sir Ddinbych yn 2014 ar 552 ciloton, sy'n ostyngiad o 581 ciloton yn 2012, ond roedd y lefel wedi cynyddu i 580 ciloton yn 2015. Mae allyriadau hefyd wedi bod yn eithaf cyson ym mhob sector ar wahân i'r rhai diwydiannol a thrydan masnachol yn Sir Ddinbych ers 2011 (y data mwyaf cyfredol sydd ar gael yn dal) http://naei.beis.gov.uk/data/local-authority-co2-map<br><br>Erbyn mis Ebrill 2018, bydd pob eiddo yn y sector rhentu preifat mewn categori Tystysgrif Perfformiad Ynni F neu G er mwyn eu gosod yn gyfreithlon (Arbed Ynni â System Gwybodaeth Ddaearyddol)<br><br>Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn nodi effeithiau amgylcheddol prosiectau a'r mesurau posib i osgoi lefelau o niwed gormodol. Pan mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, rhaid i ddatblygwr baratoi a chyflwyno datganiad amgylcheddol gyda'r cais cynllunio (Canllaw |
| | Y nifer o asesiadau'r Cod Cartrefi Cynaliadwy sy'n cael eu hategu i ddatblygiadau newydd | 100% o anheddau newydd i gyflawni Safonau Cod Lefel 3 o 2010. 100% o adeiladau masnachol newydd i gyflawni Safon Da Iawn BREEAM | Data heb ei gasglu | |
| | y % o ynni sy'n cael ei gynhyrchu yn y Sir sy'n cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy | 10% o darged ynni adnewyddadwy erbyn 2010 (targed cenedlaethol) a 60% erbyn 2050 Ffynhonnell: Rhaglen y DU ar Newid yn yr Hinsawdd | √ | |
| | Nifer yr adeiladau sy'n ymgorffori dulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy (paneli solar, tyrbinau gwynt, systemau ffotofoltäig, gwres o'r ddaear) | Cynyddu'r nifer o flwyddyn i flwyddyn | √ | |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Prosiectau adeiladu sy'n ymgorffori systemau ailgylchu ar y safle | Pob datblygiad mawr i ymgorffori systemau ailgylchu ar y safle | √ | Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy CSDd) http://naei.beis.gov.uk/data/local-authority-co2-map<br><br>Mae cymunedau lleol yn Sir Ddinbych yn elwa o gynlluniau buddion ar y lan sydd wedi'u trafod a'u cytuno'n breifat. Cafodd cymunedau fel Derwen a Chlawddnewydd offer i wneud gwelliannau esthetig i'r pentref. Cafodd Nantglyn arolwg ynni am ddim ar gyfer pob cartref Cafodd 0.0143 MW o gapasiti allbwn ynni ganiatâd cynllunio<br><br>Gall fod angen sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr o ganlyniad i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy arfaethedig drwy ddefnyddio cytundebau cyfreithiol yn unol ag Adran 106 fel y cafodd ei diwygio Nid oes data ar gael ar gyfer y nifer o adeiladau sy'n cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, rhoddwyd caniatâd i 2 gais cynllunio am dechnolegau ynni adnewyddadwy ac ynni isel yn ystod y flwyddyn flaenorol |

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Nid oes unrhyw ddatblygiadau mawr wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLl a fyddai angen system ailgylchu ar y safle |

**Amcan 17 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Diogelu adnoddau mwynau rhag gwaith datblygu a fyddai'n atal gwaith echdynnu**

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen ystyried y dyddodion mwynau a allai fod o dan y ddaear mewn cynnig datblygu | Swm y cronfeydd mwynau | Rheoli'r cronfeydd presennol yn gynaliadwy | √ | Ailddefnyddiwyd tua 50% o agregau wrth adeiladu yng Ngogledd Cymru yn ôl Arolwg Adeiladu a Dymchwel 2012 a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, aeth llai na 1% o wastraff agregau i safleoedd tirlenwi yng Ngogledd Cymru, a chafodd y rhan fwyaf helaeth o wastraff agregau ei ddefnyddio'n fuddiol, gan gynnwys i ôl-lenwi. Er na chydymffurfir â'r dangosydd hwn, yn sgil yr uchod, mae'r amcan yn dal i gael ei gyflawni. Ni ddifethwyd unrhyw adnoddau mwynol drwy ddatblygiadau heb fod yn gysylltiedig â mwynau<br><br>Mae blaenoriaeth i ddiogelu calchfaen, tywod a gro. Roedd parthau clustogi mwynau o 100m ar gyfer tywod a gro a 200m ar gyfer creigiau (CDLl CSDd, a fabwysiadwyd yn 2013) |
| | Ailddefnyddio agregau wrth adeiladu | 100% | 0 | |
| | Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cymeradwyo sy'n arwain at sterileiddio cronfeydd mwynau | 0% | √ | |

**Amcan 18 yr Arfarniad o gynaliadwyedd: Annog lleihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer a hunangynhaliaeth ranbarthol**

| Effaith i'w monitro | Dangosydd | Targed/Ffynhonnell Ddata | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Bydd angen i ddatblygiadau newydd yn y sir ystyried sut y gall leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae polisïau 7 a 8 VOE yn caniatáu safleoedd / cyfleusterau rheoli gwastraff lleol newydd a dylid monitro'r niferoedd hynny | Y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan gartrefi, gwaith adeiladu a dymchwel a diwydiannol (tunelli) | Gostyngiad yn lefelau'r gwastraff o 10% o leiaf o ffigur 1998 erbyn 2010. Erbyn 2020 dylai'r gwastraff sy'n deillio gan bob unigolyn fod yn llai na 300 cilogram y flwyddyn; Ffynhonnell: Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, Chwefror 2005 | √ | Cyrhaeddwyd y targed ar draws Cymru ar gyfer 2009/10 (Ffynhonnell: Cynllun y Sector Trefol).<br><br>Roedd cyfraddau ailgylchu ar 64% yn 2018, a gyrhaeddwyd ddwy flynedd yn fuan. Y targed newydd yw 70% erbyn 2025. Cynnig i newid i gasgliad wythnosol newydd ar gyfer deunydd ailgylchadwy, casgliad wythnosol ar gyfer gwastraff bwyd a chasgliad newydd bob pythefnos ar gyfer dillad ac eitemau trydanol bach. Mae newid arfaethedig i gasglu gwastraff anailgylchadwy unwaith bob pedair wythnos a bydd hyn yn cynnwys bin du 240 litr mwy yn lle'r un 140 litr ar hyn o bryd. |
| | y % o wastraff cartrefi, gwaith adeiladu a dymchwel a diwydiannol sy'n cael ei ailgylchu | Erbyn 2009/10 cyflawni lefel ailgylchu/compostio o 40% o leiaf, gydag isafswm o 15% o gompostio a 15% o ailgylchu Ffynhonnell: Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, Chwefror 2005 | √ | |

## Atodiad 3 – Amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych

| CYFNODAU PENDANT | *CAMAU* | DECHRAU | GORFFEN |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Adolygu | ▪ Ystyried casgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ac adolygu a diweddaru'r sail dystiolaeth;<br>▪ Paratoi Adroddiad Adolygu a dogfennau cefndir a gofyn am farn anffurfiol Llywodraeth Cymru;<br>▪ Cyhoeddi Adroddiad Adolygu a dogfennau cefnogol i'r cyhoedd ymgynghori arnynt (8 wythnos);<br>▪ Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Mehefin 2017 | Rhagfyr 2017 |
| Cytundeb Cyflawni | ▪ Paratoi a chyhoeddi Cytundeb Cyflawni i'r cyhoedd ymgynghori arno (8 wythnos);<br>▪ Cytuno Cytundeb Cyflawni diwygiedig gyda Llywodraeth Cymru | Mehefin 2017 | Mai/Mehefin 2018 |
| Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd | ▪ Adolygu gwybodaeth sylfaenol;<br>▪ Adolygu dangosyddion ac amcanion;<br>▪ Ystyried ymatebion ac adolygu;<br>▪ Cymeradwyaeth y Cyngor;<br>▪ Cyhoeddi | Mehefin 2017 | Rhagfyr 2017 |
| Cyfranogiad y Cyhoedd Cyn Adneuo | ▪ Parhau i ddiweddaru'r sail dystiolaeth;<br>▪ Adolygu meini prawf asesu'r safle;<br>▪ Gwahodd cyflwyniadau gan safleoedd ymgeisiol a chynnal y gofrestr safleoedd;<br>▪ Adolygu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol;<br>▪ Adolygu Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol;<br>▪ Gwerthuso unrhyw safleoedd a gyflwynir yn erbyn meini prawf y safle;<br>▪ Adolygu'r Arfarniad Cynaliadwyedd gwreiddiol o'r Dewisiadau a'r Strategaeth a gynigir ac argymell newidiadau neu welliannau;<br>▪ Asesiad o Effaith ar Les; | Rhagfyr 2017 | Chwefror 2019 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ▪ Paratoi dogfen Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo a'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Adroddiad Adolygu, Papurau Gwybodaeth, Asesiad o Effaith ar Les, Cytundeb Cyflawni, Hunanasesiad Prawf Cadernid ac Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol | | |
| Ymgynghoriad Cyn Adneuo | ▪ Cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo gan gynnwys y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Adroddiad Adolygu, Papurau Gwybodaeth, Asesiad o Effaith ar Les ac Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol;<br>▪ Ymgynghoriad Statudol (8 wythnos);<br>▪ Ystyried Ymatebion a diwygiadau i'r dogfennau Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo;<br>▪ Paratoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol yn dilyn ymgynghoriad;<br>▪ Cytuno Opsiwn/Strategaeth Ddewisol ac Arfarniad Cynaliadwyedd | Ebrill 2019<br><br>Ymgynghoriad statudol - Ebrill 2019 | Gorffennaf 2019<br><br>Ymgynghoriad statudol – Mai 2019 |
| Ymgynghoriad Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol | ▪ Adolygu polisïau a dyraniadau manylach ar y Cynllun Adneuo sydd heb eu cynnwys yn y cyfnod Cyn Adneuo;<br>▪ Adolygu polisïau Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo;<br>▪ Adolygu a diweddaru'r Cynllun 1af Sgrinio ac Asesu yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;<br>▪ Adolygu a diweddaru'r Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo Asesiad o Effaith ar Les;<br>▪ Paratoi a chyhoeddi'r ddogfen Cynllun Datblygu Lleol Adneuo ac Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Adroddiad Adolygu, Adroddiad Ymgynghori cychwynnol, Cofrestr Safleoedd Amgen, Papurau Gwybodaeth;<br>▪ Ymgynghoriad statudol (8 wythnos) | Awst 2019<br><br>Ymgynghoriad statudol - Ionawr 2019 | Chwefror 2020<br><br>Ymgynghoriad statudol - Chwefror 2019 |

DRAFT

## Atodiad 3 – Amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych

| CYFNODAU MYNEGOL | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflwyniad | ▪ Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a dogfen gefnogol at Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio | | Hydref 2020 |
| Archwiliad | ▪ Archwiliad annibynnol dan arweiniad yr Arolygiaeth Gynllunio | | Hydref 2020 – Hydref 2021 |
| Mabwysiadu | ▪ Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig | | Hydref 2021 |
| Adroddiad Monitro Blynyddol | ▪ Paratoi, cyhoeddi a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol | | Yn flynyddol |

DRAFT